

Maethu yng Nghymru: Pwy sy'n gofalu a pham?



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

rhwydwaith maethu
llais gofal maeth
the fostering network
the voice of foster care



Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol	4
Sut y gall deall gwerthoedd weddnewid perthnasoedd a gwella gwasanaethau	5
Y tirlun cyfredol	6
Gweithio mewn partneriaeth	7
Adnabod gwerthoedd gofalwyr maeth yng Nghymru	8
Gwerthoedd a demograffeg	14
Galluogwyr	18
Casgliad	22
Atodiad	23

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

James Foyle, ymgynghorydd recriwtio a chadw, y Rhwydwaith Maethu
f 020 7620 6443 e james.foyle@fostering.net

Rhwydwaith Maethu Cymru
1 Pentir Caspian
Stryd Pierhead
Bae Caerdydd
CF10 4DQ
www.fostering.net

Elusen gofrestredig rhif 280852 yng Nghymru a Lloegr a rhif SC039338 yn yr Alban. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig rhif 1507277.

© The Fostering Network 2014

Denu, recriwtio a dal gafael ar ofalwyr maeth yw un o'r heriau caletaf sy'n wynebu gwasanaethau maethu drwy'r wlad i gyd.

Yng Nghymru, mae yna yn awr 5,200 o blant mewn gofal sy'n derbyn gofal ymaith o'u cartref, sy'n ffigwr sydd wedi codi'n flynyddol bob blwyddyn am y 10 mlynedd diwethaf. Mae wyth deg pump y cant o'r plant hyn – 4,440 – mewn gofal maeth, ac yn byw gydag oddeutu 3,350 o deuluoedd maeth.

Eleni yn unig, mae'r Rhwydwaith Maethu yn amcangyfrif bod angen 600 o ofalwyr maeth yn rhagor i fodloni gofynion amrywiol plant sy'n dod i ofal y mae arnynt angen teulu maeth.

Ni all gwasanaethau maethu fforddio i orffwys ar y gwaith da y maent eisoes yn ei wneud i ganfod ac i gymeradwyo gofalwyr maeth bob blwyddyn. Ond beth sy'n symbylu gofalwr maeth posibl sydd â'r sgiliau a'r rhinweddau iawn i ddod ymlaen? A oes yna set o werthoedd y mae pob gofalwr maeth yn eu rhannu a all helpu gwasanaethau maethu i ddenu mwy?

Rwyf wrth fy modd cyflwyno'r adroddiad hwn, a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n gwneud peth cyfraniad tuag at helpu i ateb y cwestiynau hyn ac i gefnogi gwasanaethau maethu ledled Cymru i recriwtio'r gofalwyr maeth y maent eu hangen i ddiwallu anghenion plant yn eu gofal.

Nid yn unig y mae'r canfyddiadau hyn yn darparu mewnwelediad i recriwtio gofalwyr maeth, mae gan yr egwyddorion a'r arferion rydym yn eu nodi oblygiadau sylweddol ar gyfer dal gafael ar ofalwyr maeth. Gallant hefyd fod ag ôl-effeithiau ehangach ar gyfer sut mae gwasanaethau maethu yn cael eu strwythuro, o ystyried nad yw gwerthoedd staff gwasanaeth maethu fwy na thebyg yn rhy wahanol i werthoedd eu gofalwyr maeth.

Mae'r gwaith hwn yn ffurfio rhan annatod o'r gefnogaeth a'r datblygiad a ddarperir gan Rhwydwaith Maethu Cymru wrth recriwtio a dal gafael ar ofalwyr maeth. Mae o ond yn ddechreuad ar ragor o waith ar sut rydym yn adnabod pobl sydd â'r priodweddau i faethu, ac i'w cefnogi nhw i wneud y gwaith anhygoel y maent yn ei wneud yn meithrin rhai o blant mwyaf agored i niwed ein gwlad.

Freda Lewis

Cyfarwyddwr, Rhwydwaith Maethu Cymru

Canfyddiadau allweddol

- Mae'r arolwg yn datgelu bod llawer o ofalwyr maeth yn rhannu set benodol o werthoedd cyffredin.
- Mae gwerthoedd gofalwyr maeth yn nodedig o wahanol i werthoedd y boblogaeth ehangach.
- Mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu nodwedd gan yr hyder a'r angen i helpu yn y gymuned leol.
- Mae'r gwerthoedd yn gweddu ledled y sbectrwm demograffig.
- Mae'r canfyddiadau yn darparu cyfle ar gyfer targedu sydd wedi'i seilio ar werthoedd a strategaethau datblygu gwasanaeth.
- Mae gan y canfyddiadau hefyd oblygiadau nerthol ar gyfer cysylltiadau gwasanaethau maethu â gofalwyr maeth.
- Dengys yr adroddiad hwn sut y gellir teilwra'r holl gynnig o wasanaeth yn well i anghenion gofalwyr maeth.

Crynodeb Gweithredol

Comisiynwyd yr ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i cynhaliwyd gan y Rhwydwaith Maethu a'u partneriaid cyflenwi, iMPower Consulting.

Amcan y gwaith hwn yw cefnogi gwasanaethau maethu i recriwtio digon o ofalwyr maeth yn ôl anghenion presennol poblogaeth eu plant sy'n derbyn gofal, a'u hanghenion i'r dyfodol, drwy ddarparu deallusrwydd newydd ar werthoedd – y cymhelliannau mewnol – gofalwyr maeth cyfredol.

Mae'r penderfyniad i faethu yn un o'r rhai mwyaf chwyldroadol i fywyd y gall person ei wneud. Yn seiliedig ar y rhagosodiad mai gwerthoedd craidd unigolyn sy'n tanategu ac yn cymell y cyfryw benderfyniadau, mae'r ymchwil hwn yn caniatáu i wasanaethau maethu lunio'u swyddog recriwtio a dal gafael o amgylch gwerthoedd penodol gofalwyr maeth, neu'r rheiny sy'n debygol o ystyried maethu yn y dyfodol, drwy ragweld ac ymateb yn well i'w hanghenion a'u cymhelliannau.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r canfyddiadau allweddol o arolwg cenedlaethol o 249 o ofalwyr maeth yng Nghymru, gydag ymatebion oddi wrth ofalwyr maeth ledled pob rhanbarth a 22 o wasanaethau awdurdodau lleol, yn ogystal â'r rheiny sydd wedi cofrestru gyda darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol (IFPs).

Mae'r canfyddiadau yn darparu persbectif newydd ac arloesol ar yr her barhaus o recriwtio gofalwyr maeth gan gydategu corff presennol o dystiolaeth o arferion gorau, yn cynnwys pecyn cymorth Motivations to Foster gan y Rhwydwaith Maethu ac Understanding Attitudes, Motivations and Barriers to Adoption and Fostering: cynigiad marchnata, a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg yn Lloegr. Y dystiolaeth hon yw'r gyntaf o'i math i ddarparu fframwaith ar gyfer deall pam mae gofalwyr maeth yn gofalu a sut y gellir llunio gwasanaethau i ymateb yn well i'r gwerthoedd hynny. Mae gan y mewnwelediad y mae'n ei ddarparu oblygiadau pwysig ar gyfer arferion.

Y canfyddiadau allweddol o'r arolwg hwn yw:

Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr maeth cyfredol yn rhannu set gyffredin o werthoedd - 'arloeswyr'. Maent yn cael eu cymell yn bennaf oll gan ddymuniaid cynhenid i 'wneud y peth cywir' ac i gyfrannu tuag at wella cymdeithas.

Mae'r cymhelliannau hyn yn dal i fod yn wir ledled y sbectrwm demograffig ac ar gyfer gofalwyr maeth sydd wedi'u cofrestru gyda gwahanol wasanaethau maethu. Mae ganddynt ganlyniadau nerthol ar gyfer sut mae'r 'cynnig o wasanaeth' yn cael ei dargedu, ei ddatblygu a'i leoli.

I recriwtio mwy o ofalwyr maeth gyda nodweddion arloeswyr, ac i ddatblygu capasiti ar gyfer y plant hynny nad yw'u hanghenion ar hyn o bryd yn cael eu diwallu, dylai gwasanaethau maethu ddefnyddio'r mewnwelediad hwn i:

- Ailweithio cyfathrebu gyda gofalwyr maeth, o ran cynnwys a sianelu'r neges;
- Cynnwys gofalwyr maeth fwy wrth recriwtio a chefnogi gweithgareddau i wella'u hymrwymiad a'u hymgysylltiad positif;
- Defnyddio potensial y tîm gofalwyr maeth i gyrraedd grwpiau cymunedol;
- Cydweithio ledled gwasanaethau maethu yn lleol ac yn rhanbarthol i gydgysylltu negeseuon i gael yr effaith fwyaf posibl.

Mae llawer o'r gweithredoedd a awgrymir gan yr adroddiad hwn yn gost isel ac yn risg isel, ac eto maent yn cynnig enillion mawrion, o ran gwella galluoedd recriwtio gwasanaethau, a gwella'r gwerth am yr arian a fuddsoddir yn y gwasanaeth. Gobeithir y bydd y canfyddiadau hyn yn helpu gwasanaethau maethu i gymryd camau positif i wireddu'r potensial llawn i ddatblygu diwylliant sy'n seiliedig ar werthoedd a gweddnewid eu darpariaeth ar gyfer recriwtio a dal gafael ar ofalwyr maeth.



Plant sy'n derbyn gofal

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 24 y cant yn y pum mlynedd diwethaf.

Roedd cyfanrif o 5,743 o blant yn derbyn gofal ar yr 31ain o Fawrth, 2013, 91 am bob 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 mlwydd oed. O'r rhain, mae tua 5,200 yn derbyn gofal ymaith o'u cartref, gyda thuag 85 y cant mewn gofal maeth, canran uwch nag mewn unrhyw wlad arall yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r mwyafrif (92 y cant) o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn wyn. Mae tri y cant o ethnigrwydd cymysg, gyda llai nag un y cant o blant o grwpiau Asiaidd, du neu o grŵp ethnig arall.

Mae ychydig yn fwy o fechgyn (54 y cant) na genethod (46 y cant) yn derbyn gofal, a phlant 10 i 15 oed yw'r rhai oedran mwyaf cyffredin, sef tua 36 y cant o'r rheiny mewn gofal.

Camdriniaeth neu esgeulustod oedd y rheswm a roddwyd am i 1,190 o'r 1,980 o blant ddod i ofal yn y flwyddyn hyd at yr 31ain o Fawrth, 2013.

Roedd gan naw y cant o blant dri neu fwy o symudiadau o leoliad yn y flwyddyn ddiwethaf, gydag 20 y cant yn symud o leoliad ddwywaith.

Gofalwyr maeth

Ar gyfer yr oddeutu 4,440 o blant sy'n derbyn gofal mewn gofal maeth, mae yna tua 3,350 o aelwydydd maethu yng Nghymru. Mae gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd dros 2,500 o ofalwyr maeth wedi'u cymeradwyo, sydd, gyda'i gilydd, yn darparu mwy na 4,400 o leoedd.

Darparai darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol 1,325 (30 y cant) o leoliadau yn y flwyddyn hyd at yr 31ain o Fawrth, 2013, ac roedd 60 y cant ohonynt yn cael eu darparu y tu allan i ffiniau'r awdurdod lleol oedd yn pwrcasu.

Canfu adroddiad 'The Age of Foster Care' y Rhwydwaith Maethu yn 2009 mai cyfartaledd oed cymedrig gofalwyr maeth yng Nghymru oedd 54 mlwydd oed, sef blwyddyn yn hŷn na chyfartaledd cyffredinol y Deyrnas Unedig a Lloegr, a'r un oedran â hynny yn yr Alban. Canfu'r adroddiad hefyd mai ond wyth y cant o ofalwyr maeth yng Nghymru ar y pryd oedd yn eu 30au, a bod tri y cant dros 70 mlwydd oed.

Rhwydwaith Maethu Cymru

Ers dros 10 mlwynedd, mae Rhwydwaith Maethu Cymru wedi cefnogi'i aelodau i recriwtio ac i ddal gafael yn effeithiol ar y gofalwyr maeth y mae arnynt eu hangen.

Yn 2003, gwnaethom arolwg o ofalwyr maeth i ymfyn eu barn ar y tair ffordd orau o recriwtio gofalwyr maeth newydd:

1. Hysbysebion a gwybodaeth
2. Gwell lwfansau
3. Gwell cefnogaeth a hyfforddiant

Gwnaethom berfformio'r un ymarfer yn 2012, gyda'r ymatebion a ganlyn:

1. Gwell tâl a phroffesiynoldeb
2. Defnyddio gofalwyr maeth fel llysgenhadon
3. Onestrwydd ynghylch agweddau negyddol o faethu

O'r awgrymiadau generig yn 2003 am hysbysebion a gwybodaeth, mae gofawyr maeth yn awr yn fwyfwy yn gweld eu rôl fel rôl sydd wedi'i hintegreiddio i mewn i'r broses gyfan a chael eu trin yn iawn fel gweithwyr proffesiynol yn y tîm o amgylch y plentyn.

Mae gwell lwfansau hefyd wedi esblygu i well tâl, unwaith eto yn gysylltiedig â phroffesiynoldeb ond hefyd mae yna botensial i gyfeirio at onestrwydd ynghylch agweddau negyddol o faethu, megis bylchau rhwng lleoliadau a gwelyau gweigion. Tra ein bod yn cydnabod yr angen i recriwtio mwy o ofalwyr maeth yng Nghymru i fodloni'r gofynion, a darparu dewis digonol o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal y mae arnynt angen gofal maeth, mae'n hanfodol i'r holl wasanaethau maethu asesu angen lleol er mwyn sicrhau mai ond gofawyr maeth a all gynnig y sgiliau a'r rhinweddau cywir sy'n cael eu recriwtio i atal gormodedd o leoliadau gweigion.

Gweithio mewn partneriaeth - Rhaglen Welliant Gydweithredol De-ddwyrain Cymru

Mae recriwtio a dal gafael ar ofalwyr maeth yn amcan cyffredin i wasanaethau maethu drwy Gymru i gyd. Gwelir hyn yn aml fel cystadleuaeth am adnodd prin, ond mae yna lawer o fuddion i weithio cydweithredol i gyflawni amcanion lleol. Mae rhannu arbenigedd, gwybodaeth a chyflawni darbodion maint drwy ymgyrchu ar y cyd ond yn rhai o'r buddion a ddilynir gan grŵp o 10 o awdurdodau sy'n ffurfio Rhaglen Welliant Gydweithredol De-ddwyrain Cymru (SEWIC).

Gan adrodd i'r 10 o gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdodau sy'n cymryd rhan, mae'r prosiect wedi nodi tri maes a all fod o fudd i recriwtio gofawyr maeth lleol a rhanbarthol:

- Datblygu model o arfer gorau ar gyfer rheoli ymholiadau
- Cwmpasu a gweithredu un strategaeth farchnata ranbarthol
- Nodi strwythur tâl i ofalwyr maeth ar y cyd

Nododd y prosiect y potensial i wella'r ffordd y mae gwasanaethau maethu yn rheoli ymholiadau i wella profiad yr ymholwr drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n ymateb i ofynion y cwsmer. Drwy gyfres o weithdai ac adnoddau sydd eisoes yn bodoli, mae safonau arfer gorau wedi'u datblygu sy'n canolbwyntio ar 11 o gamau allweddol o'r broses ymholi sydd wedi'u lledaenu i bob awdurdod ers hynny.

Gydag ymgyrchoedd recriwtio sy'n cystadlu - gyda phob un yn arddangos negeseuon a brandiau gwahanol ac a ariannir gan wasanaethau unigol, ond â chanlyniadau a ddymunir yn gyffredin - mae yna rychwant pendant i gytgordio'r swyddogaeth hon.

Drwy ddatblygu un strategaeth recriwtio, gall Rhaglen Welliant Gydweithredol De-ddwyrain Cymru (SEWIC) wireddu arbedion effeithlonrwydd yn eu swyddogaethau marchnata a chyflawni darbodion maint. Bydd eu hymdrechion hefyd o fudd i'r cwsmer fydd â dealltwriaeth gliriach o'r disgwyliad o ddod yn ofalwr maeth a gofynion y plant sydd angen eu maethu.

Fel y nododd y prosiect, bydd strategaeth recriwtio gydgysylltiedig o bosibl yn arwain at fwy o dryloywder o'r pecynnau cymorth a ddarparwyd gan bob awdurdod. Mae hyn wedi arwain at drydydd maes y prosiect i nodi model tâl gofawyr maeth a rennir fel ag i beidio â rhoi anfantais i unrhyw un o'r awdurdodau sy'n cymryd rhan.

Mae gwaith ar y prosiect hwn yn mynd i barhau yn 2014 a thu hwnt i wireddu'r buddion a gynigir.

Mae'r adrannau a ganlyn yn adrodd ar ac yn dadansoddi canfyddiadau'r Dulliau Gwerthoedd (Values Modes) ac arolwg cymhelliannau a gynhaliwyd yn Awst a Medi, 2013.

Dull

Er mwyn segmentu poblogaeth y gofalwyr maeth drwy gymhelliannau mewnol, defnyddiwyd system o'r enw Dulliau Gwerthoedd (Values Modes). Mae Dulliau Gwerthoedd yn system berchnogol, sy'n categoreiddio pobl yn 12 math seicograffig arwahanol, gyda phob un grŵp yn cynrychioli rhwng 7 y cant a 12 y cant o'r boblogaeth sy'n 15 oed a hŷn. Seiliwyd y categoreiddio ar ymatebion i holiadur byr a gynhwyswyd o fewn yr arolwg cenedlaethol. Seiliwyd Dulliau Gwerthoedd ar y ddamcaniaeth seicolegol o gymhelliant, a ddatblygwyd gan Abraham Maslow, ac a gynhowyd yn ei 'Hierarchy of Needs'. O fewn hierarchaeth Maslow, cydnabyddir tair lefel ysgogiadol sylfaenol - y Person Sefydlog (Cymhellir gan Gynhaliaeth), y Chwilotwr (Wedi'i Gyfeirio'n Allanol) a'r Arloeswr (Wedi'i Gyfeirio'n Fewnol).

Anghenion sy'n cymhell Person Sefydlog (Cymhellir gan Gynhaliaeth) yw anghenion ffisiolegol craidd, diogelwch a diogeledd a bod yn perthyn. Rhai nodweddion o Person Sefydlog nodweddiadol yw:

- Mae teulu a chartref, a gofalu amdanynt, yn tueddu i fod yn y canol.
- I'r rheiny sy'n byw ar eu pen eu hunain, mae cyfeillion yn mynd â lle teulu.
- Mae traddodiad a strwythur teuluol yn bwysig.
- Amgenach ganddo bethau i fod yn 'normal'.
- Yn naturiol geidwadol (gydag 'c' fach).
- Ymwybodol o ddiogeledd - gochelgar o droseddau, trais a therfysgaeth.
- Cefnogol o gosbau caled i droseddwyr.
- Gochelgar o newid, yn enwedig newid dim ond er mwyn newid.
- Mwy cyfforddus gyda sefyllfaedd rheolaidd ac arferol.
- Pryderus am yr hyn sydd yn y dyfodol.

Amlyga hyn mewn ymddygiadau sy'n ymwneud â chwilio am reolau i gydymffurfio â nhw a normalrwydd i gydymffurfio ag ef er mwyn caffael diogelwch a diogeledd.

Anghenion sy'n cymhell Chwilotwr (Wedi'i Gyfeirio'n Allanol) yw parch gan eraill a hunan-barch. Rhai nodweddion o Chwilotwr nodweddiadol yw:


- Canolbwyntio ar lwyddiant.
- Bob amser eisiau 'bod y gorau' yn yr hyn y maent yn ei wneud.
- Croesawu cyfleoedd i ddangos eu galluoedd.
- Ymbleser'u'n fawr mewn cydnabyddiaeth a gwobrwyo.
- Ei fryd ar wneud y mwyaf o gyfleoedd.
- Bydd yn cymryd cyfleoedd am ddirchafiad a rhwydweithio proffesiynol.
- Ymwybodol o dueddiadau a ffasiwn.
- Hoffi syniadau newydd a ffyrdd newydd.
- At ei gilydd, yn optimistaidd am y dyfodol.

Mae hyn yn amlygu mewn ymddygiadau sy'n ymwneud â chystadlu'n llwyddiannus o fewn system er mwyn sicrhau gwobr, cydnabyddiaeth ac yn y pen draw, cadarnhad allanol.

Mae anghenion Arloeswr (Wedi'i Gyfeirio'n Fewnol) yn wybyddol esthetig ac yn hunanwireddiad. Rhai nodweddion o Arloeswr nodweddiadol yw:

- Ceisio rhoi pethau at ei gilydd a deall y darlun mawr.
- Pryderu am yr amgylchedd, y gymdeithas, tlodi byd, ac yn y blaen.
- Bob amser yn chwilio am gwestiynau ac atebion newydd.
- Ymdeimlad mewnol cryf o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir.
- Dymuniad cryf am degwch, cyfiawnder a chydaddoldeb.
- Hunanhyderus a meddu ar ymdeimlad o fod yn hunan-asiantaeth.
- At ei gilydd, yn bositif ynghylch newid, os ydyw'n ymddangos yn werth chweil.
- Gwylidwrus optimistaidd am y dyfodol.

Mae hyn yn amlygu mewn ymddygiadau sy'n ymwneud â chwalu (neu osod) rhwystrau i wireddu'r hyn a ganfyddir fel 'y peth cywir'.



O fewn pob un o'r tri Dull Gwerthoedd, mae'r system yn canfod pedwar gwahanol is-grŵp. Mae'r rhain yn darparu sbectrwm i nodi nodweddion cymeriad unigolion o fewn pob un segment gwerthoedd yn nodi'r gwahaniaethau cynnil o fewn pob un Dull Gwerthoedd.

Mae gwerthoedd gofalwyr maeth wedi'u clystyru o amgylch un maes penodol iawn (Arloeswyr - Trosesgynwyr).

Am fwy o wybodaeth, ewch i cultdyn.co.uk.

Rhoddyd cyhoeddusrwydd eang i'r arolwg ar-lein ymysg gofalwyr maeth. Fe'i hanfonwyd yn electronig at ychydig o dan 1,000 o ofalwyr maeth sy'n aelodau o Rhwydwaith Maethu Cymru (25 y cant o boblogaeth y gofalwyr maeth) drwy Awst a Medi 2013. Fe'i hysbysebwyd hefyd drwy gylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol, e-byst a gwefan y Rhwydwaith Maethu. Anogwyd gwasanaethau maethu i hyrwyddo'r arolwg yn lleol.

Yn seiliedig ar boblogaeth gofal maeth Cymru o thua 3,350 o aelwydydd, mae lefel yr ymateb a dderbyniwyd yn darparu lefel hyder o 95 y cant, gydag ysbaid hyder o 6. Felly, cymerir fod y sampl yn gynrychiadol a chadarn o ran ystadegau.

Mae'r mwyafrif sylweddol o ofalwyr maeth yn Arloeswyr - 73 y cant yn erbyn cyfartaledd poblogaeth oedolion cenedlaethol yn y DU o 39 y cant, sy'n cynrychioli un o'r crynodiadau mwyaf sylweddol i'w ganfod yn hanes ymchwil Dulliau Gwerthoedd.

O'r 27 y cant o ofalwyr maeth sy'n weddill nad ydynt yn Arloeswyr, mae 22 y cant yn Chwilotwyr ac ond pump y cant yn Bersonau Sefydlog. Mae gan un ar bymtheg y cant Ddull Gwerthoedd Chwilotwr a leolir ar 'ffin' yr Arloeswr o ran y sbectrwm gwerthoedd fel a eglurir ar y 'map priodweddau Dulliau Gwerthoedd'.

Mae gan Arloeswyr set cynhenid o nodweddion sy'n cynnwys pryder am y byd a materion cymdeithasol; ymdeimlad mewnlod cryf o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir, yn ogystal â dymuniad cryf am degwch, cyfiawnder a chydarddoldeb. Mae ganddynt hefyd lefelau uchel o hunan-effeithiolrwydd ac maent yn meddu ar gred gref y byddant, beth bynnag sy'n digwydd, yn gallu llwyddo.

A ydych yn adnabod y disgrifiad hwn o'ch gofawyr maeth?

Arloeswyr felly yw'r cyntaf i ymateb i alwad i weithredu yn y gymuned leol ar sail rheidrwydd moesol - rhywbeth sy'n gorfod digwydd oherwydd ei fod y peth cywir. Mae priodweddau'r dulliau gwerthoedd mwyaf cyffredin ymysg gofawyr maeth hefyd yn gyffredin ymysg actifyddion elusennol (o'u cyferbynnu â rhoddwyr goddefol). Mae'r bobl hyn yn fwy tebygol o fod yn ymwneud â'r gymuned leol, ac o fod yn weithredol ynddi, ac maent, nad yw'n syndod, yn cydweddu â phroffil y rheiny a dargedir gan nifer o elusennau cenedlaethol dros waith gwirfoddol.

Beth a all hyn ei olygu i'ch strategaeth recriwtio?

Mae'r canfyddiad hwn - sef bod set gwerth neilltuol yn cynrychioli'r tir mwyaf cyffredin ymysg gofawyr maeth cyffredol - yn esgor ar ddau gwestiwn yn syth. Y cyntaf yw pa un ai a oes yna lawer mwy o Arloeswyr â'r sgiliau i faethu ynteu a oes yna 'bwynt dirlawnder' wedi'i gyrraedd. Mae gwasanaethau maethu yn llwyddiannus gyda recriwtio digon o ofalwyr maeth i liniaru'r cyfartaledd o 13 y cant sy'n ymadael â maethu yn flynyddol. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu bod tua 73 y cant yn debygol o fod yn Arloeswyr, sydd yn ôl eu cyfran yn fwy na dwbl y cyfartaledd cenedlaethol (34 y cant). Yn amlwg, tra na fydd y cyfan o'r garfan hon mewn sefyllfa dda i ddechrau mynd i faethu, mae'n rhoi syniad o'r cyfle.

Yr ail yw pa un ai a oes cyfleoedd i recriwtio o'r gronfa o garfanau gwerthoedd eraill. Mae Chwilotwyr a Phersonau Sefydlog gyda'i gilydd yn ffurfio'r 66 y cant sy'n weddill o'r boblogaeth genedlaethol o oedolion, o'u cymharu ag ond 27 y cant o boblogaeth gofawyr maeth. A yw'r bwlch cynrychiolaeth hwn yn dynodi y gellir ac y dylid gwneud mwy gan wasanaethau i roi sylw i'r gwerthoedd hyn?

A ddylech fod yn sylfaenu'ch dull o ymgysylltu ar set neilltuol o werthoedd?

Bydd strategaeth recriwtio sydd â'r nod o ddenu pobl sydd â gwerthoedd Person Sefydlog neu Chwilotwr yn sicr yn wahanol iawn i un sydd wedi'i llunio o amgylch y rheiny sydd gan yr Arloeswyr. Pa strategaeth bynnag a ddefnyddir yn lleol, mae'r canfyddiad hwn felly'n amlygu'r cyfleoedd ar gyfer targedu yn seiliedig ar werthoedd. Mae gan hyn yn ei dro oblygiadau nerthol ar gyfer 'cynigiad' y gwasanaeth a sut yr ymgysylltir â darpar ofalwyr maeth - o weithredoedd marchnata a dulliau recriwtio, drwy'r daith i gymeradwyaeth.

Arloeswr

Datgelodd prosiectau lefel gwasanaeth sy'n seiliedig ar ddulliau gwerthoedd hyd yn hyn hefyd fod gan y mwyafrif sylweddol o ofalwyr maeth presennol werthoedd Arloeswr a'u bod yn gyffredinol wedi defnyddio'r canfyddiad hwn i ganolbwyntio ar y cyfle cyntaf - targedu Arloeswyr. Dangosodd y prosiectau hyn y bydd gwerth y mewnwleidiad i ddenu mwy o ofalwyr maeth sy'n Arloeswyr yn cael ei wireddu ar ei lawnaf os yw'n cael ei gymhwyso'n lleol ac yn gyson, gyda'r timau sy'n gyfrifol am gyflawni'r gwasanaeth yn cyd-gynhyrchu ac yn gweithredu syniadau, yn ddelfrydol ochr yn ochr â gofalwyr maeth.

Un o'r rhesymau cliraf pam mae gan lawer o ofalwyr maeth presennol werthoedd Arloeswyr yw dymuniad Arloeswyr i helpu ac i wneud y peth 'cywir' er lles eu hamgylchedd. Bydd cysylltiadau teuluol sy'n chwalo, gan ansefydlogi'r amgylchedd i'r plentyn, yn taro tant yn gryf gydag Arloeswyr ac felly yn eu hannog nhw i weithredu.

Mae gwasanaethau maethu yn debygol o fod wedi cael llwyddiant mawr hyd yn hyn o ran recriwtio gofalwyr maeth sydd â gwerthoedd Arloeswyr drwy gynnwys y neges ddarbwyllol hon fel rhan o'u hymgyrchoedd recriwtio a'r ddealltwriaeth gysylltiedig o ofal maeth o'u profiadau personol. I ddenu mwy o ofalwyr maeth sydd â gwerthoedd Arloeswyr, ystyriwch sut y gallwch addasu rhagor ar eich neges, i wneud y mwyafrif o'r alwad i weithredu i'r grŵp hwn.

Mae llawer o wasanaethau maethu yn cyhoeddi pecynnau gwybodaeth am recriwtio fel gweithred gyntaf yn dilyn ymholiad gan ddarparu ofalwr maeth. Fodd bynnag, bydd Arloeswyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael sgwrs agored i drafod ac i ofyn cwestiynau am yr hyn y mae maethu yn ei olygu er mwyn penderfynu ai maethu yw'r peth 'cywir' iddyn' nhw ei wneud. Yn amlwg, nid yw'n ymarferol nac yn ddefnydd da o adnoddau i ddarparu ymweliad â chartref i bawb sy'n ymholi, ond gallech ailystyried strwythur eich sesiynau gwybodaeth i wneud y defnydd gorau o'r cyfle am ddeialog rhwng dau.

Yn ogystal â dymuniad i rywun gyfathrebu â nhw yn uniongyrchol, mae ar Arloeswyr hefyd angen teimlo'n rhan o, a chyfrannu tuag at y gwasanaethau ehangach. Ystyriwch felly sut mae'ch gwasanaeth maethu yn cael ei gyflwyno yn eich 'gwybodaeth recriwtio', a'r cwmpas ar gyfer sut, wedi iddynt gael eu cymeradwyo, y gall gofalwyr maeth fod yn gysylltiedig â llunio'r cynnig er mwyn denu mwy o Arloeswyr i ddod ymlaen.

Sut mae'ch gwasanaeth wedi'i sefydlu i ddenu, i recriwtio ac i ddal gafael ar ofalwyr maeth sydd â gwerthoedd Arloeswyr?



Chwilotwr

Byddai gan strategaeth sydd wedi'i chanoli ar Chwilotwr, ar y llaw arall, wahanol nodweddion. Fel y dangosodd y canfyddiadau, ychydig dros un o bob pum gofalwr maeth cyfredol sy'n Chwilotwr, lleiafrif gweddol fawr. Yn amlwg, mae yna nodweddion o fod yn ofalwr maeth fyddai'n denu pobl sydd a'r set hon o werthoedd.

Er enghraifft, gallai'r gwasanaeth amcanu at ganolbwyntio ar gyfeiriadedd llwyddiant Chwilotwr drwy leoli rôl y gofalwr maeth yn wahanol. Yn 2001, gosododd rhaglen Plant yn Gyntaf Llywodraeth Cymru darged o 50 y cant ar gyfer cyfradd y bobl sy'n ymadael â gofal i ennill o leiaf dwy TGAU/CGCC yn 2002, a 75 y cant erbyn 2003 hyd yn hyn. Er ei fod wedi gwella'n barhaus drwy gydol yr amser hwn, roedd lefel y cyrhaeddiad yn 2010/11 tua 57 y cant, sef bron 20 y cant yn is na'r targed.

Gall gofalwr maeth sydd â gwerthoedd Chwilotwr fod mewn sefyllfa gref i helpu plant mewn gofal maeth, yn enwedig plant yn eu harddegau, i gyflawni'n academaidd, er enghraifft, drwy lobio'n galetach drostynt i ennill lle yn ysgol leol orau'r wladwriaeth. Gall dymuniad Chwilotwr i 'fod y gorau' a gwneud y mwyaf o gyfleoedd eu gwneud yn ddefnyddio ymddwyn perffaith i blentyn sydd wedi'i faethu ac sydd yn ei ardegau.

I ddenu gofalwyr maeth potensial sydd â gwerthoedd Chwilotwr, gellir canoli'r cynnig ar dâl, manteision defnyddio ymddwyn o ran enw da, a chyfleoedd i gael cydnabyddiaeth a chadarnhad gan gyfoedion.

Os caiff strategaeth recriwtio 'gwerthoedd Chwilotwr' ei hystyried, byddai ar y gwasanaeth angen deall sut y byddai anghenion gofalwyr maeth sydd â'r set hon o werthoedd yn wahanol, ac felly byddai angen newid o'r gefnogaeth bresennol a ddarperir. Yn ychwanegol, gellid fod angen fframwaith i sicrhau bod lles y plentyn sy'n cael ei faethu, o'i gyferbynnu â dyheadau'r gofalwr maeth, yn dal i fod yn ganolog.

Person Sefydlog

Byddai strategaeth recriwtio sy'n canolbwyntio ar Person Sefydlog yn fwy gwahanol fyth. Gallai unigolion sy'n gwerthfawrogi sefydlogrwydd a sefyllfaoedd rheolaidd fod mewn sefyllfa dda i faethu plentyn fyddai hefyd yn gwerthfawrogi ac yn elwa o'r sefyllfaoedd hyn. Gall eu gwerthoedd o roi cymaint o bwysigrwydd ar deulu a chartref ddarparu'r amgylchedd diogel a chefnogol i blentyn sydd wedi'i faethu i ffynnu.

I ddenu gofalwyr maeth posib' sydd â gwerthoedd Person Sefydlog, gellir canoli'r cynnig ar sefydlogrwydd, a darparu amgylchedd teuluol diogel ar gyfer lleoliadau maethu dros y cyfnod hir.

Os caiff y math hon o strategaeth recriwtio ei hystyried, byddai angen i'r gwasanaeth benderfynu a all o ddiwallu anghenion a gofynion gofalwyr maeth sydd â gwerthoedd Person Sefydlog i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni holl rolau gofalwr maeth, yn cynnwys, er enghraifft, hwyluso cysylltiad neu reoli ymddygiad sy'n llawn her.

A allai gwahanol werthoedd weddu i ofynion gwahanol leoliadau?

Mae'r rhain ond yn rhai enghreifftiau ond gellir gweld sut y gall y farn ar y cyd a syml hon am y gofalwr maeth helpu i adeiladu 'diwylliant y cwsmer' a 'chynnig' cyson ac sy'n cael ei dargedu.

Mae natur y berthynas â gofalwyr maeth bron yn unigryw yn y sector cyhoeddus. I ba raddau ydych chi'n gweld gofalwyr maeth fel 'cwsmeriaid'?

Dal gafael


Mae canfod bod y mwyafrif sylweddol o ofalwyr maeth presennol yn rhannu gwerthoedd Arloeswyr hefyd yn darparu mewnwelediad a goblygiadau nerthol ar gyfer dal gafael ar ofalwyr maeth.

Bydd dymuniad i gael pobl i ymgynghori â nhw ac i gyfrannu tuag at ddatblygiad ehangach y gwasanaeth maethu, a'r mewnwelediad ychwanegol a gyflwynir uchod, hefyd yn grymuso gwasanaethau maethu i ddatblygu ac i ddal gafael yn well ar eu gweithlu presennol o ofalwyr maeth drwy oruchwyliaeth a chefnogaeth ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.

Yn y pen draw, mae'r canfyddiad hwn yn darparu lens newydd drwy'r hyn y gall gweithwyr proffesiynol ddeall gofalwyr maeth a'u hadborth yn well, a fframwaith sy'n helpu i weithredu ar y ddealltwriaeth well hon.

Cymhariaeth gwerthoedd ledled gwahanol garfanau

Arloeswyr yw'r Grŵp Maslow cryfaf ym mhob gwasanaeth ac asiantaeth (Awdurdodau Lleol a Darparwyr Gwasanaethau Maethu Annibynnol).




Fel y gwnawn fynd ymlaen i ddangos, mae yna ffactorau sy'n dylanwadu ar sut mae gofalwr maeth yn dewis gwasanaethau maethu. Fodd bynnag, mae hyn yn cadarnhau bod gofalwyr maeth sydd â gwerthoedd Arloeswyr yn cael eu denu gan y rheidrwydd moesol i feithrin ledled yr holl sectorau. Mae Awdurdodau Lleol a Darparwyr Gwasanaethau Maethu Annibynnol yn denu'r un gyfradd fechan o ofalwyr maeth sydd â gwerthoedd Person Sefydlog. Mae Awdurdodau Lleol yn denu yn ôl y gyfran fwy o ofalwyr maeth sydd â gwerthoedd Chwilotwr, pump y cant yn uwch o'r boblogaeth, na Darparwyr Gwasanaethau Maethu Annibynnol. Damcaniaethir yn aml fod cymhellion ariannol ymysg y rhesymau allweddol pam mae gofalwyr maeth yn dewis Darparwr Gwasanaethau Maethu Annibynnol yn anad Awdurdod Lleol. Dengys y canlyniadau, serch hynny, fod gan Ddarparwyr Gwasanaethau Maethu Annibynnol gyfran hyd yn oed yn fwy o ofalwyr maeth sy'n Arloeswyr nag sydd gan Awdurdodau Lleol.

Mae prosiectau sydd â gwerthoedd lleol wedi amcanu at gael gwybod yr hyn yw rôl a phwysigrwydd cymhellion ariannol ymysg Arloeswyr. Yn y gwaith hwn, i Arloeswyr, sonnir yn nodweddiadol fod y pecyn ariannol yn gymharol ddibwys ac annigonol, gan ddangos lefel yr ewyllys da a fuddsoddir. Daw tâl yn broblem, fodd bynnag, pan fydd Arloeswyr yn ei ystyried o yn 'annheg' – yn debyg iawn i unrhyw agwedd arall o'r gwasanaeth – gan fod hyn yn tramgwyddo'n fwy llym ar eu hymdeimlad o 'gywir'. Tra bod 'teg' i Chwilotwyr yn fwy tebygol o gael ei ddiffinio drwy gyfeirio at gyfraddau'r farchnad, mae'n ymddangos bod canfyddiad Arloeswyr yn fwy cysylltiedig â ffactorau megis codiadau blynyddol mewn lwfansau.

Sut mae'ch gofalwr maeth yn diffinio tâl 'teg'?

I Arloeswyr, ffactor llawer iawn pwysicach yw'r canlyniad y maent yn gallu'i gyflawni. Mae'r cymhelliant hwn yn tanategu'r hyn y maent yn ei werthfawrogi mewn gwasanaeth neu asiantaeth, yr hyn y maent yn chwilio amdano a phwy y maent yn ymuno ag ef.

Daeth hyn i'r golwg mewn nifer o ffyrdd wrth i'r arolwg ofyn pam mae gofalwr maeth wedi dewis eu gwasanaeth neu'u hasiantaeth yn hytrach na dewisiadau eraill.



Yn gyntaf, mae barn gofalmwyr maeth am y gefnogaeth a gynigir yn arwyddocaol, yn fwy felly na ffioedd a lwfansau (mae rhagor o ddadansoddi yn cadarnhau bod hyn yn wir ledled y sbectrwm demograffig). Eto, mae hyn yn dilyn o'r mewnwelediad o werthoedd sy'n rhagweld bod gofalmwyr maeth sy'n ddarpar Arloeswyr yn bennaf oll â'u bryd ar gyflawni canlyniadau positif. Mae'n hanfodol, serch hynny, bod yn eglur nad yw hyn yr un peth â datgan nad yw arian yn bwysig ym mhenderfyniad a gallu person i faethu.

Yn ail, mae gwerth 'brand' y cyngor yn eglur. Mae'r dymuniad i weithio i Awdurdod Lleol hefyd yn gyson â gwerthoedd Arloeswyr, sy'n cysylltu'r cyngor â daioni cyhoeddus, ac mae cyflawni hyn yn gymhelliant canolog iddynt ddod ymlaen. Mae Arloeswyr, serch hynny, hefyd yn cael eu denu i weithio i Ddarparwyr Gwasanaethau Maethu Annibynnol, sy'n dynodi bod y rheidrwydd moesol i gyflawni daioni cyhoeddus drwy faethu yn gweddu ledled yr holl sectorau.

Yn drydydd, gwelir gair llafar gwlad fel offer allweddol ar gyfer recriwtio mwy o ofalmwyr maeth. Dengys y canfyddiadau fod gofalmwyr maeth sydd gyda Darparwyr Gwasanaethau Maethu Annibynnol yn fwy tebygol o eiriol dros a chymeradwyo'u gwasanaeth maethu i ddarpar ofalmwyr maeth. Mae saith deg saith y cant o'r holl ofalmwyr maeth sydd wedi cyfeirio o leiaf un person i ddod yn ofalmwr maeth yn Arloeswyr.


Ledled marcwyr demograffig

Yn ychwanegol at ogwydd cyson o Arloeswyr ledled carfanau'r sectorau cyhoeddus a phreifat, mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod y cymysgedd o werthoedd yn parhau i fod yn gyffredinol gyson ledled crefydd, oedran, rhyw, incwm, addysg a rhanbarth (gweler y graffiau a ganlyn). Golyga hynny fod gofalmwyr maeth o bob grŵp oedran yn debygol o fod yn Arloeswyr, fel y mae gofalmwyr maeth o bob crefyddau ac ym mhob dosbarth incwm, ym mha ranbarth neu ardal bynnag y maent yn byw.

Pwysigrwydd y canfyddiad hwn yw ei fod yn caniatáu i broffiliau gwerthoedd poblogaethau gofalmwyr maeth o wahanol ardaloedd ac mewn amrywiaeth o leoliadau gael eu cymharu'n ystyrlon. Mae hefyd yn golygu bod y dulliau a ddefnyddir i dargedu set neilltuol o werthoedd mewn un cyngor neu ardal yn debygol o fod yn llwyddiannus wrth eu defnyddio yn rhywle arall.


Pa un ai a yw'r gwasanaeth yn targedu poblogaethau economaidd-gymdeithasol uwch neu is, pa un ai a yw'r lleoliad yn drefol neu'n wledig, bydd strategaeth datblygu gwasanaethau sydd wedi'i chanoli ar werthoedd yn dilyn yr un egwyddorion ac yn gwireddu'r un cyfleoedd.

Crefydd




* Nodwch, os gwelwch yn dda, fod y crefyddau hyn yn cael eu tangynrychioli yn yr ymchwil inni allu canfod arwyddocâd ystadegol o'r canfyddiadau, ond maent wedi'u cynnwys i ddangos y crefyddau a ddetholwyd.


Oed




Rhyw



Incwm



Addysg



Rhanbarth




* Mae'r ymatebion am bob awdurdod lleol mewn cromfachau

Yn ychwanegol at y Dulliau Gwerthoedd, roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau i gyfranogwyr i adborthi'u profiad fel gofalwyr maeth, eu cymhelliannau ehangach dros ddod ymlaen a pha un ai a ydynt wedi annog unrhyw un arall i wneud hynny, yr adroddir arnynt yn yr adran a ganlyn.

Cymorth ariannol

Dywedir yn aml nad yw gofalwyr maeth yn cael eu cymell yn bennaf oll gan y cymorth ariannol a ddarperir, a chefnogir hyn gan y dystiolaeth mai ond saith y cant o ofalwyr maeth a ddywedodd fod arian yn ffactor pwysig iawn wrth ddewis gyda phwy i faethu.

Fel mae'r siart isod yn eglurebu, dywed bron 75 y cant o ofalwyr maeth nad yw arian yn bwysig neu ond ychydig yn bwysig yn eu penderfyniad i faethu gyda'u gwasanaeth maethu. Yn wir, os arian oedd y prif gymhellwr, mae darpar ymgeiswyr yn annhebygol o fynd drwodd i gymeradwyaeth.



Mae'r tueddiad hwn yn amlwg yn nodweddion gwerthoedd Arloeswyr, gan fod eu pryder am gymdeithas ac i 'wneud y peth cywir' yn fwy na'u hangen am gydnabyddiaeth a thâl.

Mae'n bwysig peidio â diystyru arwyddocâd tâl digonol, nid yn unig i gydnabod eu rôl yn y tîm sydd o amgylch y plentyn, ond hefyd i'w galluogi nhw i gyflawni'n effeithiol fel gofalwr maeth y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen.


**A yw lefel eich cymorth ariannol yn gystadleuol?
A ydyw'n gwobrwyo'n ddigonol y dyletswyddau sydd eu hangen fel gofalwyr maeth?**

Y daith i gymeradwyaeth

Mae'r broses ar gyfer recriwtio gofalwyr maeth i'ch gwasanaeth yn dechrau o'r funud y mae darpar ofalwr maeth yn 'darganfod' yr hyn sydd gan eich gwasanaeth i'w gynnig.

O'r man cyswllt cyntaf i'r panel, mae angen i'r pontio drwy amrywiol gamau o'r broses 'ganolbwyntio ar y cwsmer', nid yn unig i gefnogi'r ymgeiswyr ar eu taith ond hefyd i wella'r tebygolrwydd y byddant, os cânt eu cymeradwyo, yn eiriolwr dros eich gwasanaeth.

Mae gofalwyr maeth presennol yng Nghymru yr un mor fodlon gyda'r cysylltiad cychwynnol â'u gwasanaeth maethu a'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn yn ystod y cais. Maent, serch hynny, yn fwy amwys ac ansicr ynglŷn â'r wybodaeth y maent yn ei derbyn cyn cysylltu â'r gwasanaeth, fel a ddangosir yn y siart isod.



Wrth ddadansoddi'r wybodaeth hon i gymharu gwasanaethau maethu awdurdodau lleol â darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol, rydym yn canfod mai fel ateb i bob un o'r tri chwestiwn, atebodd gofalwyr maeth sydd gyda darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol eu bod naill ai'n fodlon iawn, yn eitha' bodlon neu heb fod yn fodlon nac yn anfodlon. Felly, gall yr holl achosion o naill ai eitha' anfodlon, anfodlon iawn, ddim yn cofio neu ddim yn gwybod gael ei briodoli'n uniongyrchol i ofalwyr maeth awdurdodau lleol. Yn amlwg, mae hwn yn fater i gael sylw ac mae'n gyfle i awdurdodau lleol wella'u perfformiad. Mae'r dystiolaeth hon hefyd yn awgrymu rhywbeth am ewylllys gofalwyr maeth awdurdodau lleol eu bod, er gwaethaf y ffaith eu bod yn anfodlon ag amrywiol elfennau o'r broses, wedi ddewis parhau ymlaen a maethu i'w gwasanaeth maethu dewisol. Gall hyn o bosibl gyberthyn yn bositif i'r canfyddiadau a adroddwyd o ddymuniad cryf i faethu i'r awdurdod lleol.

Un o briodoleddau allweddol pobl sydd â gwerthoedd Arloeswyr yw dymuniad i bobl gyfathrebu â nhw yn uniongyrchol, yn aml drwy sgwrs, o'i gyferbynnu ag ennill gwybodaeth drwy ddarllen deunydd gwybodaeth.


Sut ydych yn cyfathrebu'r gwerth o ddod yn ofalwr maeth i'ch gwasanaeth? Sut ydych yn cefnogi 'taith y cwsmer'?
I ba lefelau ac ar ba gyfnodau a ydych yn cyfathrebu'n uniongyrchol ag ymgeiswyr?

Plant biolegol ar yr aelwyd

Mae ystafell sbâr yn ofyniad sylfaenol er mwyn dod yn ofalwr maeth. Nid yw cael profiad o'ch plant eich hun yn hanfodol, ond yn aml gall fod yn fuddiol i ymgeiswyr. Mae'r ddau, serch hynny, yn aml yn annibynnol ar ei gilydd, gan nad oes yna yn aml le i blentyn sydd wedi'i faethu yn ogystal â chael plant biolegol ar yr aelwyd. O ganlyniad, mae oedran cyfartalog gofalgwyr maeth cyfredol yn tueddu i fod tua 50 mlwydd oed, sydd o bosibl yn cydberthyn i'r adeg pan fo plant biolegol wedi tyfu i fyny ac wedi gadael y nyth. Cefnogir hyn gan y canfyddiadau o'r arolwg, gyda 42 y cant o ofalwyr maeth a wnaeth ei gwblhau yn 45-54 mlwydd oed.

Fodd bynnag, dengys y canfyddiadau mai ond 30 y cant o ofalwyr maeth yng Nghymru sydd ag o leiaf un plentyn biolegol ar eu haelwyd sy'n 13 i 17 mlwydd oed ac mae gan bron 25 y cant o leiaf un plentyn sy'n 6 i 12 mlwydd oed.

Ac eithrio plant sydd wedi'u maethu, faint o blant hyd at 18 mlwydd oed sy'n byw ar eich aelwyd?



Mae darparu cefnogaeth i, a chynnwys meibion a merched yn elfen hanfodol o gynnis gan unrhyw wasanaeth maethu, ac fe all gael effaith sylweddol ar recriwtio gan ei fod yn aml yn cael ei amgyffred fel rhwystr.


A ydym yn annog pobl sydd â'u plant eu hunain i ddod ymlaen? Sut ydym yn cyfathrebu'r gefnogaeth rydym yn ei darparu i feibion a merched ac yn ateb cwestiynau ar effaith a gaiff plant sydd wedi'u maethu ar blant biolegol ar yr aelwyd?

Cyfeirio eraill

Yn aml, mae gair llafar gwlad yn cael ei gofnodi fel prif ffynhonnell yr ymholiadau i wasanaethau maethu. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau o'r ymchwil yn awgrymu mai ond 55 y cant o ofalwyr maeth yng Nghymru (mae 77 y cant ohonynt yn Arloeswyr, fel a ddisgrifiwyd yn flaenorol) sydd wedi cyfeirio rhywun y maent yn ei adnabod i wneud cais yn uniongyrchol i'w gwasanaeth.

Mae llawer o wasanaethau maethu yng Nghymru yn cynnig cymhelliad ariannol ar ffurf cynllun 'argymell cyfaill'. Gall cynnig cymhellion fod yn un dull o annog gair llafar gwlad, yn enwedig os yw'ch gwasanaeth maethu yn ceisio recriwtio gofalwyr maeth sydd â gwerthoedd Chwilotwr. Mae hyn, serch hynny, ond yn un ffactor dros pam y gall gofalwr maeth deimlo bod rheidrwydd arno i weithredu ar ran gwasanaeth maethu i awgrymu bod mwy o bobl yn camu ymlaen.

Gall eich gofalwyr maeth cyfredol fod yn eiriolwyr nerthol dros eich gwasanaeth, ac yn adnodd defnyddiol mewn gweithgareddau recriwtio. Bydd gofalwyr maeth sydd â gwerthoedd Arloeswyr yn croesawu'r cyfle i fod yn gysylltiedig, yn enwedig yn y cyfnodau cynllunio â'u syched am gwestiynau ac atebion newydd. Gallant hefyd gael effaith negyddol sylweddol os ydynt yn teimlo'u bod wedi'u hesgeuluso, yn neilltuol pan fo gwasanaeth maethu yn recriwtio, a hwythau heb neb, ac os nad ydynt yn cael eu cefnogi ac yn cael eu cynnwys yn effeithiol. Mae cyfathrebu yn hanfodol i bob gofalwr maeth i'w galluogi nhw i fod yn ofalwyr maeth, yn ogystal ag yn llysgenhadon dros y gwasanaeth.



Goblygiadau ar gyfer strategaethau recriwtio gwasanaethau maethu

Mae'r gwaith hwn yn amlygu bod gan y mwyafrif o'r gofalwyr maeth presennol yng Nghymru set gyffredin o werthoedd Arloeswyr, gogwydd mwy sylweddol nag mewn unrhyw ardal a ddadansoddiwyd hyd yn hyn. Mae gwerthoedd yn trawstorri'r holl broffiliau demograffig, yn cynnwys oed, ethnigrwydd, crefydd ac incwm yr aelwyd. Mae gan y canfyddiad hwn oblygiadau sylweddol a phositif ar gyfer yr holl wasanaethau maethu.

Gall gwasanaethau maethu ddefnyddio mewnwelediad y gwerthoedd i ddatblygu strategaeth recriwtio 'sy'n canolbwyntio ar y cwsmer', sy'n denu mwy o ofalwyr maeth sydd â gwerthoedd Arloeswyr.

Gall gwasanaethau maethu hefyd ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu ymgyrchoedd recriwtio fyddai'n denu darpar ofalwyr maeth sydd â set werthoedd nad yw'n gyffredin yn lleol nac yn wir yn genedlaethol, ond a all ddarparu gofal maeth i blant sydd ag angen penodol.

Yn ychwanegol at recriwtio, gall gwasanaethau maethu lunio'u gwasanaeth o ran negeseua, cyfathrebu a darparu cefnogaeth i ddiwallu anghenion ac i ddatblygu gofalwyr maeth presennol.

Gellir defnyddio mewnwelediad o werthoedd i gynyddu effaith gwybodaeth leol megis adborth sy'n benodol i'r gwasanaeth gan ofalwyr maeth cyfredol neu gyfleoedd i dargedu yn ôl demograffeg. Mae'n rhoi sylw i'r cwestiwn sylfaenol o pam mae gofalwyr maeth yn gofalu ac mae'n gymwys, ni waeth beth fo'r ddemograffeg.

Drwy gwblhau gwaith 'mewnwelediad cwsmeriaid' lleol gan ddefnyddio'r dull gwerthoedd hwn ac asesu anghenion plant lleol sy'n derbyn gofal, gall gwasanaethau maethu ddilysu'r canfyddiadau hyn yn gyflym a datblygu pecynnau cymorth i'w trosi i fod yn fentrau ymarferol.



Hierarchaeth Anghenion a Dulliau Gwerthoedd Maslow

Mae'r Grwpiau Maslow a Dulliau Gwerthoedd, a ddiffinnir gan Cultural Dynamics Strategy and Marketing Limited ('CDSM'), yn deillio o Arolwg o Werthoedd Prydain a ddechreuodd yn 1973 ac a oedd, wrth i hyn gael ei ysgrifennu, yn cael eu cynnal a'u diweddarau gan CDSM yn fyd-eang.

Arolwg o Werthoedd Prydain yw'r arolwg mwyaf a'r hynaf o ran ei sefydlu o werthoedd, credoau a chymhelliannau poblogaeth Prydain - ar hyn o bryd, mae dros 600 o gwestiynau'n cael eu mesur yn yr arolwg o 3,000 i 5,000 o oedolion sy'n gynrychiadol yn genedlaethol. Cynhaliwyd y cylch nesaf o ymchwil ym mis Tachwedd, 2013.

Mae degawdau o ymchwil empirig wedi dangos mai Hierarchaeth Anghenion Maslow sy'n egluro orau'r segmentau gwerthoedd sy'n deillio'n annibynnol gan CDSM o'r setiau o ddata helaeth. Mae'r ddamcaniaeth yn darparu ar gyfer dealltwriaeth ddeinamig o'r ffordd y mae poblogaethau cenedlaethol yn newid eu gwerthoedd dros amser - y newidiadau a fesurir gan yr Arolwg o Werthoedd Prydain.

Defnyddir Y Grwpiau Maslow a Dulliau Gwerthoedd mewn ystod eang o wledydd ac mewn amrywiaeth o gwmnïau a chyrrff anllywodraethol. Cynhaliwyd ymchwil rhyngwladol, oedd yn cwmpasu dros 45 y cant o boblogaeth y byd, mewn naw o wledydd yn y 18 mis diwethaf.

Mae yna ragymadrodd i ddatblygiad a'r defnydd o'r Grwpiau Maslow yn cael ei gynnwys yn y llyfr What Makes People Tick gan Chris Rose (2011).

